**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif1**
**Legislation Committee No.1**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Annwyl Gyfaill

12 Rhagfyr 2008

**Ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)**

Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y pwyllgor') wedi cael y dasg o ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) ('y Mesur arfaethedig'). Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig i'r Cynulliad gan Dai Lloyd AC ym mis Gorffennaf 2008 yn dilyn ei lwyddiant yn y balot yn rhoi'r hawl i Aelodau meinciau cefn ofyn caniatâd i gyflwyno cynnig ar gyfer deddfwriaeth.

Ceir manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=93814&ds=7/2008

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=93815&ds=7/2008

Er mwyn cynorthwyo'i waith, bydd y pwyllgor yn croesawu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig am y Mesur arfaethedig gan bawb sydd â diddordeb. **Yn arbennig, mae am gael safbwyntiau ar y pwyntiau a ganlyn:**

**1. A oes angen Mesur Cynulliad ynghylch ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol o ran a ddylid gwaredu caeau chwarae?**

**2. Beth yw eich barn chi am y prif ddarpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig, hynny yw:**

- **y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried yr effaith a gâi gwerthu caeau chwarae ar gymunedau lleol cyn iddynt benderfynu a ydynt am gael gwared arnyn**

**Ffôn / Tel: 029 2089 8025**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

- **y prif ddiffiniadau (Adran 2)**

- **y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi datganiad o'r effaith ac ymgynghori yn ei gylch cyn gwneud penderfyniad ynghylch gwaredu cae chwarae (yn enwedig dull a maint yr ymgynghoriad a chynnwys y datganiadau o effaith) (Adran 3)**

- **y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi datganiad penderfynu, a'r hyn sydd ynddo, a'r trefniadau ar gyfer hysbysu pobl am eu penderfyniad (Adran 6)**

- **yr ymgynghoreion statudol sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i'r Mesur arfaethedig**

- **pwerau Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd stopio neu gyfarwyddyd adfer i awdurdodau lleol (Adran 7).**

**3. Beth yw goblygiadau ymarferol ac ariannol rhoi'r darpariaethau hyn ar waith?**

**4. A fydd y Mesur arfaethedig yn cyflawni ei ddiben a'i amcan cyffredinol?**

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad - Mesur arfaethedig Caeau Chwarae* fel pennawd i'r e-bost. Os byddai'n well gennych gyflwyno copi caled o'ch cyflwyniad, anfonwch ef at Claire Griffiths, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw gyflwyniadau gyrraedd y swyddfa erbyn dydd Gwener 6 Chwefror 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am **y broses ddeddfwriaethol** yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

Wrth baratoi eich cyflwyniad, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl a dylai fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth**
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn

- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor.

Mae'r pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor y gwanwyn.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8025 neu Claire Griffiths, y Dirprwy Glerc ar 029 2082 1990.

Yn gywir

**Rosemary Butler AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**